# PRENTISIAETH WEINYDDOL X2

**(cytundeb cyfnod penodol 2 flynedd, Medi 2020 - diwedd Awst 2022)**

***Diogelwch Cymunedol a Phartneriaid x1**

**Cynorthwyydd Corfforaethol x1**

**GRADDFA 1**

**CYFLOG: £17,364 y flwyddyn**

(Sylwch fod pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd)

A oes gennych ddiddordeb mewn cychwyn gyrfa yn yr Adran Weinyddol? Ydych chi'n frwdfrydig, yn drefnus gyda diddordeb mewn profiad gwaith â thâl wrth ennill cymwysterau cydnabyddedig? Swydd 2 flynedd yw hon lle byddwch yn ymgymryd â gweithgareddau gweinyddol yn ein Pencadlys yn Llantrisant.

**Bydd y Brentisiaeth yn rhoi'r cyfle i chi**:-

- Ennill profiad gweinyddol gyda chyflogwr dibynadwy
- Ddatblygu sgiliau sy'n berthynol i waith fydd yn cynyddu eich posibiliadau cyflogaeth i'r dyfodol
- Ennill cymwysterau Prentisiaeth Lefel 2 a 3 o fewn eich maes arbenigedd

Bwriad y Brentisiaeth hon yw rhoi'r cyfle i chi ddatblygu sgiliau a phrofiadau gwerthfawr sy'n berthynol i waith. Rydym yn ymroddedig i'ch cynorthwyo i gamu ymlaen. Rydym yn cydnabod bod cychwyn swydd newydd yn gallu bod yn gyffrous a brawychus, byddwn yn cynorthwyo pob prentis newydd drwy ddarparu:-

- Sesiwn ymgynefino, wedi ei gynllunio i'ch helpu i ddod i adnabod a deall sut rydym yn gweithio
- Amrywiaeth o brofiadau gwaith o fewn eich maes arbenigol
- Mentor, i roi cymorth wrth i chi symud ymlaen drwy eich Prentisiaeth
- Canllawiau ar wneud cais am Swyddi a chystadlu o fewn prosesau recriwtio

Sylwch: Bydd argaeledd y cymwysterau prentisiaeth sydd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020 – 2021 yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru yn unol â chanllawiau Covid-19. Bydd y Gwasanaeth yn ceisio darparu profiad dysgu o ansawdd uchel i'r ymgeisydd llwyddiannus a gellid chwilio am lwybrau hyfforddi a chymwysterau eraill lle bo angen.

**Mae manteision gweithio gyda ni'n cynnwys:-**

- Cyfleusterau campfa ar y safle
- Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol
- Parcio am ddim ar y safle
- Mynediad i fanteision a chynlluniau lles y Gwasanaeth
- 25 diwrnod o wyliau blynyddol yn ogystal â gwyliau banc

**Ni does modd ystyried ymgeiswyr:-**

- Sydd â chymhwyster uwch neu gymhwyster gwrthdrawiadol o fewn yr un bwnc y barod
- Sy'n gwneud unrhyw gymhwyster arall a ariennir gan y llywodraeth

**Sgiliau Iaith Gymraeg:** Rydym yn ymrwymedig i gefnogi hawliau siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau o ansawdd da drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly, byddai'n ddymunol i'r ymgeisydd llwyddiannus yn siarad Cymraeg, ac yn barod i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Mae sgiliau Cymraeg yn **Hanfodol** ar gyfer y brentisiaeth *Diogelwch Cymunedol a Phartneriaid. I gael manylion pellach dylech gyfeirio at y Swydd-ddisgrifiad a'r Manyleb Person.

Wrth gyflawni'r rôl uchod, bydd gofyn i bob gweithiwr o fewn y Gwasanaeth ufuddhau i **Werthoedd Craidd** y Gwasanaeth a'u hyrwyddo, sef bod:

**Yn broffesiynol**
**Yn ofalgar**
**Yn barchus**

**Yn bwrpasol**
**Yn ddibynadwy**
**Yn rymus**

**Yn ddisgybledig**
**Yn hydwyth**

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd-Ddisgrifiad o dudalennau 'Gweithio i ni' ar ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00, ganol dydd, 27/07/2020.**

Dylid dychwelyd Ffurflenni Cais gorffenedig i: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX.

Ceisiadau am Swyddi yn ystod Pandemig COVID-19

Nid oes modd i ni dderbyn Ceisiadau am Swyddi a gyflwynir yn bersonol i unrhyw un o'n safleoedd nes y rhoddir hysbysiad pellach. Dylid cyflwyno ceisiadau drwy law e-bost neu drwy'r post. Sicrhewch eich bod chi'n rhoi stampiau digonol ar gyfer maint a phwysau eich Cais ac yn gadael amser ychwanegol gan fod y gwasanaethau post dan bwysau sylweddol ar hyn o bryd.

Er mwyn diogelu ein Staff a'r sawl sy'n Ymgeisio am Swyddi, rydym wedi addasu ein prosesau Recriwtio, a byddwn ni'n defnyddio e-byst, Galwadau Ffôn, y Rhyngrwyd a Chyswllt Fideo i gyfathrebu â'n hymgeiswyr, cynnal Cyfweliadau ac Asesiadau a chynnal ein Gwiriadau Cyn Cyflogi. Rhoddir diweddariadau mewn perthynas â chynnydd eu Ceisiadau yn ystod y camau llunio Rhestr Fer, Dethol, a Chyn Cyflogi. I gael gwybodaeth bellach cyfeiriwch at y dudalen COVID19 ar ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/ystafell-newyddion/newyddion/safle-covid19/

Rydym yn ddiolchgar am eich amynedd a'ch cydweithredu yn ystod y cyfnod heriol iawn hwn.

Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn ogystal â phrawf cyffuriau ac alcohol cyn y gweir apwyntiad.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni fydd ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwerth gwirioneddol gweithlu amrywiol ac rydym yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.